# 16. Y Goeden Nadolig

Awgrymir defnyddio cyfieithiad newydd y Testament Newydd yn y gwasanaeth hwn. Mae rhyddid i ddewis carolau pwrpasol ar gyfer cynulleidfa arbennig. Gellir cyflwyno'r carolau gan gynulleidfa, neu amrywio a defnyddio grŵp neu unigolion. Rhaid paratoi'r orenau wedi eu haddurno â rhuban coch o flaen llaw, gyda channwyll fechan teisen pen-blwydd wedi'i gosod yn yr oren.

| | |
|---|---|
| Galwad i addoli: | Ni sy'n caru Iesu Grist, down at ein gilydd unwaith eto ar ŵyl y Nadolig i glywed neges yr angylion, 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith dynion sydd wrth ei fodd.' Gadewch i ni yn ein calonnau ac yn ein meddyliau fynd tua Bethlehem a gweld yr hyn a ddigwyddodd yno i'r baban yn gorwedd mewn preseb.<br><br>Trown i dudalennau'r Ysgrythur, lle cawn hanes Duw yn ei gariad yn delio â dynion oedd ers y dechrau am fynnu eu ffordd eu hunain, ond a enillwyd yn ôl trwy'r plentyn sanctaidd hwn.<br><br>Ond i ddechrau, gadewch i ni weddïo dros y byd yn ei angen, ei angen am dangnefedd rhwng pobl a'i gilydd, ac yn arbennig am dangnefedd rhwng pob oed, a'r bobl sydd o wahanol gefndir yn ein hardal ni.<br><br>Ac oherwydd ei fod wrth fodd calon yr Iesu, gadewch i ni yn ei enw ef, gofio am y tlawd a'r anghenus, am y rhai sy'n brin o fwyd, yn ddigartref. Am y rhai sy'n cael eu gorthrymu, yr henoed a phlant, a'r niferoedd mawr sydd heb adnabod yr Iesu, y rhai sy'n ei wrthod ac am bob gweithred sy'n groes i'w gariad ef, maddau i ni.<br><br>Yn olaf, cofiwn o flaen Duw am y rhai sydd wedi bod yma o'n blaenau, ond sydd yn awr yn cael gweld Duw mewn goleuni cliriach, y rhai a dderbyniodd Grist i'w bywydau, a thrwyddo ef, sy'n gallu bod yn un gyda ni.<br><br>Offrymwn ein gweddi a'n moliant syml o flaen dy orsedd fawr di, ac yng ngeiriau'r weddi a roddwyd i ni, cydadroddwn … 'Ein Tad …' |
| Carol: | 'O deuwch oll i Fethlehem', *Clychau'r Nadolig*. |
| Darlleniad: | Hebreaid 1:1–5 |
| Carol: | 'O dawel ddinas Bethlehem', *Clychau'r Nadolig*. |
| Litani'r geni: | [*A: Arweinydd; C: Cynulleidfa*] |
| A: | Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith ni. |
| C: | Gogoniant yn y goruchaf i Dduw. |
| A: | Trwy edrych ar yr hwn a anwyd ym Methlehem, cawn weld yr Iesu byw. |

C: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

A: Ti yr hwn na chefaist le yn y llety, trwy buro ein calonnau a'n meddyliau gwna le i ti dy hun ynon ni.

C: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

A: Iesu, goleua y tywyllwch sy'n cael ei greu gan bechod dynion trwy roi i ni dy gariad.

C: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

A: Dymunwn am dangnefedd yn ein calonnau oherwydd bod brawd wedi'i roi i ni.

C: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

A: Duw y Tad, creawdwr pob un, Duw y Mab, cyfryngwr pob un, Duw yr Ysbryd, cynhaliwr pob un.

C: Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

A: Bendithia a chadw ni, bob un.

[*Distawrwydd am ychydig er mwyn rhoi amser i weddi ddistaw*]

Carol

Arweinydd: Y GOEDEN NADOLIG

Dyna braf oedd cael cerdded trwy'r goedwig yn ystod misoedd yr haf. Arogl melys y coed pinwydd o'n cwmpas, cael casglu moch bach y coed, cael teimlo gwe'r pry copyn ar ein hwynebau wrth i ni droedio'r tywyllwch rhwng y bonau. Pob coeden yn edrych wrth ei bodd yn cystadlu â'i chyfeillion i gyrraedd goleuni'r awyr uwchben. Coed talgryf, unionsyth a'r gwynt yn aflonyddu rhyw fymryn arnyn nhw. Rhes ar ôl rhes o filwyr cadarn yn eu lifrau gwyrdd yn cysgodi'r llethrau.

Roedd edrych ymlaen mawr am gael mynd yn ôl yno tua'r Nadolig. Ond dyna siom. Nid oedd yno ond boncyffion byr i'n hatgoffa o goedwig yr haf, a thameidiau o bren marw wedi eu gwasgu i'r pridd rhychiog dan olion olwynion y peiriannau mawr. Edrychai'r llethrau'n noeth a hagr a'u mantell werdd wedi diflannu.

Wrth droi i'r dref ar y ffordd adre roedd y lle'n fwrlwm o fywyd, pawb yn rhuthro yma ac acw yn ceisio eu gorau glas i brynu nwyddau ac anrhegion ar gyfer yr ŵyl. Gwelson ni lawer o'n ffrindiau o'r goedwig wedi eu pentyrru o flaen y siopau i'w gwerthu yn goed Nadolig. Ar y sgwâr yng nghanol y dref roedd un o'r rhai mwyaf yn sefyll yn unig, wedi'i gwisgo â phob math o oleuadau trydan; rhai coch a melyn, gwyrdd a glas, ac ar ei brig, seren lachar o olau gwyn. Safai pawb i sylwi ar hon wrth fynd heibio ac edmygu'r golau

lliwgar, a gwrando ar fiwsig y carolau'n chwarae drwy gorn radio o westy cyfagos. Nid y goeden oedd yn cael y sylw mwyach ond yr addurniadau, y trimins o'i chwmpas.

Dyna beth trist fyddai i ni fethu sylwi ar bwrpas y Nadolig am ei fod wedi ei guddio dan drimins. Gwyliwn rhag edrych ar y Nadolig eleni fel cyfle i fwyta, cynnal partïon, cael a rhoi anrhegion, a chuddio Iesu Grist o'r golwg.

Carol

Darllen: 1 Ioan 1:1–3; 5–7

Arweinydd: Dowch blant ymlaen i dderbyn anrheg.

Mae'r oren hon yn cynrychioli BYD Duw.

Mae'r rhuban coch yn cynrychioli'r CARIAD a welson ni ar Galfaria.

Mae'r golau ar y gannwyll yn cynrychioli GOLEUNI yr Efengyl, y goleuni a ddaeth i ni trwy lesu Grist y baban yn y preseb.

[*Wrth i'r plant dderbyn eu hanrhegion, bydd yr arweinydd yn goleuo'r canhwyllau ac yn dweud – 'Ewch â'r goleuni allan i'r byd. Rhowch olau ar y gannwyll ar y bwrdd gartref ddiwrnod y Nadolig'*]

Carol

**DIWEDD**